Y GRONFA GWADDOL IEUENCTID

Polisi'r Sector Ieuenctid ac Atal Trais

Crynodeb o argymhellion

Diwygio Cyllid

1 Cyfuno cyllid drwy'r Adolygiad Gwerth am Arian Thematig i greu cronfa ariannol benodol i wasanaethau ieuenctid ar gyfer awdurdodau lleol gan ddefnyddio fformwla anghenion

Pam?

- Mae cyllid darniog, wedi'i gyfyngu gan amser gan y llywodraeth ar gyfer gwasanaethau ieuenctid yn achosi cymhlethdod ac aneffeithlonrwydd.
- Mae gwariant awdurdodau lleol ar wasanaethau ieuenctid yn amrywio'n fawr, heb lawer o gysylltiad ag amddifadedd neu risg o drais.
- Mae pwysau ariannol statudol mwy dybryd yn cael mwy o sylw na gwasanaethau ieuenctid.

I'W GADARNHAU
£0

FFOCWS
Lloegr

2 Yn yr adolygiad gwariant nesaf, cyflwyno cyllid newydd, penodol ar gyfer clybiau ieuenctid fel gwasanaeth ataliol allweddol (yn amodol ar ganfyddiadau astudiaeth 2027)

Pam?

- Mae gwariant awdurdodau lleol ar wasanaethau ieuenctid wedi gostwng o dri chwarter yn Lloegr a dros chwarter yng Nghymru ers 2010, a darpariaeth mynediad-agored sydd wedi'i tharo fwyaf.
- Mae clybiau ieuenctid yn cyrraedd plant a phobl ifanc sy'n agored i gymryd rhan mewn trais.
- Tystiolaeth fod cau clybiau ieuenctid wedi cynyddu lefel troseddu a thrais sy'n golygu bod angen ailfuddsoddi'n strategol.

I'W GADARNHAU
TBC

FFOCWS
Lloegr a Chymru

Sut i'w gyflwyno

3 Defnyddio'r gronfa *Better Youth Spaces* i agor clybiau ieuenctid newydd lle mae'r ddarpariaeth ar ei gwannaf a'r risg o fod yn agored i drais ar ei huchaf

Pam?

- Mae diffyg darpariaeth i bobl ifanc yn golygu bod plant a phobl ifanc mewn risg o gymryd rhan mewn trais a throseddu.

I'W GADARNHAU
£0

FFOCWS
Lloegr

4 Cynnwys tystiolaeth am 'yr hyn sy'n gweithio' yn y canllaw i Hybiau *Young Futures*

Pam?

- Heb sail tystiolaeth, gallai Hybiau *Young Futures* fabwysiadu dulliau atal trais a throseddu heb eu profi neu niweidiol.
- Mae'r effaith yn dibynnu nid yn unig ar yr hyn y mae Hybiau yn ei gynnig, ond ar sut mae cefnogaeth yn cael ei thargedu, ei dylunio a'i darparu.

I'W GADARNHAU
£0

FFOCWS
Lloegr

Cryfhau diogelu

5 Sicrhau bod newidiadau o ran hyfforddiant yn paratoi gweithwyr ieuenctid i ymateb i achosion amrywiol o drais sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc wrth weithio ochr yn ochr ag asiantaethau partner

Pam?

- Mae ieuenctid yn wynebu mathau o drais sy'n gorgyffwrdd, gan gynnwys trais yn erbyn menywod a merched (VAWG).
- Mae gweithwyr ieuenctid yn darparu cymorth dibynadwy i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed wrth ymdopi â systemau aml-asiantaeth cymhleth.

I'W GADARNHAU
£0

FFOCWS
Lloegr a Chymru

6 Diweddaru canllawiau diogelu statudol i gryfhau rôl gweithwyr ieuenctid wrth ymateb i niwed y tu allan i'r teulu

Pam?

- Mae gweithwyr ieuenctid yn rhy aml yn cael eu gadael allan o ymatebion aml-asiantaeth i niwed y tu allan i'r teulu sy'n effeithio ar y plant a'r bobl y maen nhw'n eu cefnogi.
- Mae canllawiau diogelu presennol yn rhoi sylw cyfyngedig ac anghyson i rôl benodol y sector ieuenctid.

I'W GADARNHAU
£0

FFOCWS
Lloegr a Chymru